Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldebau (2015)

Mae'r ffurflen hon yn cyflwyno tystiolaeth bod cydraddoldebau, yr iaith Gymraeg a thegwch wedi cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch polisïau a darparu gwasanaethau yng Nghyngor Dinas Casnewydd.

Daw ein ffocws Cydraddoldebau o Ddeddf Cydraddoldebau 2010: rydym yn ystyried y naw nodwedd warchodedig sy'n ymwneud â chydraddoldeb - oedran, ailbennu rhywedd, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

O dan y Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol mae gennym ddyletswydd i wneud y canlynol:
- Dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon
- Gwella cyfle cyfartal
- Meithrin cydberthnasau da

ym mhob un o'r naw nodwedd warchodedig.

O dan Fesur y Gymraeg 2011, ni ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Yng Nghasnewydd rydym yn canolbwyntio ar Degwch drwy'r themâu canlynol: Iechyd, Tlodi, Sgiliau a Gwaith, Cam-drin Domestig a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd sy'n Seiliedig ar Ardal.

Maes Gwasanaeth	**Pennaeth Gwasanaeth**	**Y sawl sy'n gyfrifol am yr Asesiad:**	**Dyddiad yr Asesiad**
Addysg	James Harris	Jodi Pontin	13 Mehefin 2017

1. Beth yw'r polisi/gwasanaeth sy'n cael ei asesu?

Cymeradwyodd penderfyniad gan Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc blaenorol ym mis Mehefin 2013 weithredu dull codi tâl diwygiedig ar gyfer Costau Cludiant Ôl-16 ar wasanaethau dan gontract ar ddull fesul cam a fyddai'n dileu'r cymhorthdal presennol yn gyfan gwbl erbyn mis Medi 2017.

Gweithredwyd y penderfyniad hwn ym mis Medi 2014 pan gynyddwyd y cyfraniad gan rieni tuag at y ddarpariaeth hon o £45 y

flwyddyn i £347 y flwyddyn yn unol â chodi'r un costau ar fyfyrwyr sy'n defnyddio'r rhwydwaith bysiau lleol. Roedd cynnydd i'w gyflwyno eto ym mis Medi 2015, mis Medi 2016 a mis Medi 2017 er mwyn dileu'r cymhorthdal yn gyfan gwbl.

Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2015, penderfynwyd gohirio cynnydd arfaethedig mis Medi 2015 ac, yn lle hynny, ddiwygio'r dull rhannu er mwyn cysoni'r ffi atodol ychwanegol â chost tocyn tymor ar y rhwydwaith bysiau lleol, gan bennu'r ffi ar £370 y flwyddyn academaidd.

Yn 2016, penderfynwyd gohirio cynnydd arfaethedig mis Medi 2016, gan gynnal lefel bresennol y taliadau. Byddai hyn yn cynnal y sefyllfa bresennol yn lle lleihau'r cymhorthdal. Byddai'r costau a godir ar bob myfyriwr sy'n defnyddio gwasanaethau dan gontract yn parhau i fod yn gyfartal.

2. Beth yw diben newid y polisi/gwasanaeth?

Gohirio cynnydd pris arfaethedig mis Medi 2017, gan gynnal lefel bresennol y taliadau.

3. Nodweddion Gwarchodedig

Nodwedd Warchodedig	**Pwy yw'r cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth/darpar ddefnyddwyr gwasanaeth?**	**Os byddwn yn gwneud y penderfyniad hwn, beth fydd yr effaith bosibl?** **Gall yr effaith fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.** **Esboniwch sut y gellir effeithio ar bobl a rhowch dystiolaeth o hyn**	**Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd** **Pa newidiadau neu fesurau ymarferol fyddai'n lleihau'r effaith andwyol ar grwpiau penodol?** **Pa newidiadau fyddai'n cynyddu effeithiau cadarnhaol, e.e. gwella mynediad neu gyfle?** **Gellir ailystyried ar ôl yr ymgynghoriad**	**Pwy sy'n gyfrifol?**	**Amserlen ar gyfer adolygu**
Oedran	Disgyblion sy'n ceisio	Bydd angen i	Ystyrir bod hyn yn cael	Rheolwr Busnes	Medi 2017

	addysg ôl-16 mewn ysgol	ddisgyblion sy'n dilyn astudiaethau ôl-16 mewn ysgol sy'n gymwys i gael grant teithio dewisol dalu'r un lefel o gyfraniad gan riant tuag at gostau teithio gwirioneddol os ydynt yn defnyddio gwasanaeth cerbyd dan gontract neu'r rhwydwaith bysiau lleol	effaith gadarnhaol yn hytrach nag un andwyol a byddai hyn yn cael ei gyfleu i'r defnyddwyr gwasanaeth cyn gynted â phosibl	ac Addysg/ Rheolwr Uned Gludiant Integredig	
Ailbennu rhywedd	Ddim yn berthnasol				
Anabledd	Disgyblion sy'n ceisio addysg ôl-16 mewn ysgol	Caiff yr holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael cymorth eu trin yn gyfiawn a bydd angen iddynt dalu'r un lefel o gyfraniad gan riant tuag at gostau teithio	Ystyrir bod hyn yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach nag un andwyol a byddai hyn yn cael ei gyfleu i'r defnyddwyr gwasanaeth cyn gynted â phosibl	Rheolwr Busnes ac Addysg/ Rheolwr Uned Gludiant Integredig	Medi 2017
Priodas/Partneriaeth Sifil	Ddim yn berthnasol				
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ddim yn berthnasol				
Hil	Disgyblion sy'n ceisio addysg ôl-16 mewn ysgol	Bydd angen i ddisgyblion sy'n dilyn astudiaethau ôl-16 mewn ysgol sy'n gymwys i gael grant teithio dewisol dalu'r	Ystyrir bod hyn yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach nag un andwyol a byddai hyn yn cael ei gyfleu i'r defnyddwyr gwasanaeth cyn gynted â phosibl	Rheolwr Busnes ac Addysg/ Rheolwr Uned Gludiant Integredig	Medi 2017

		un lefel o gyfraniad gan riant tuag at gostau teithio gwirioneddol os ydynt yn defnyddio gwasanaeth cerbyd dan gontract neu'r rhwydwaith bysiau lleol			
Crefydd/cred (neu absenoldeb hynny)	Disgyblion sy'n ceisio addysg ôl-16 mewn ysgol ffydd	Caiff yr holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael cymorth eu trin yn gyfiawn a bydd angen iddynt dalu'r un lefel o gyfraniad gan riant tuag at gostau teithio	Ystyrir bod hyn yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach nag un andwyol a byddai hyn yn cael ei gyfleu i'r defnyddwyr gwasanaeth cyn gynted â phosibl	Rheolwr Busnes ac Addysg/ Rheolwr Uned Gludiant Integredig	Medi 2017
Rhyw	Disgyblion sy'n ceisio addysg ôl-16 mewn ysgol	Bydd angen i ddisgyblion sy'n dilyn astudiaethau ôl-16 mewn ysgol sy'n gymwys i gael grant teithio dewisol dalu'r un lefel o gyfraniad gan riant tuag at gostau teithio gwirioneddol os ydynt yn defnyddio gwasanaeth cerbyd dan gontract neu'r rhwydwaith bysiau lleol	Ystyrir bod hyn yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach nag un andwyol a byddai hyn yn cael ei gyfleu i'r defnyddwyr gwasanaeth cyn gynted â phosibl	Rheolwr Busnes ac Addysg/ Rheolwr Uned Gludiant Integredig	Medi 2017
Cyfeiriadedd	Ddim yn berthnasol				

Rhywiol					
Y Gymraeg	Disgyblion sy'n ceisio addysg ôl-16 mewn ysgol Gymraeg	Caiff yr holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael cymorth eu trin yn gyfiawn a bydd angen iddynt dalu'r un lefel o gyfraniad gan riant tuag at gostau teithio.	Ystyrir bod hyn yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach nag un andwyol a byddai hyn yn cael ei gyfleu i'r defnyddwyr gwasanaeth cyn gynted â phosibl	Rheolwr Busnes ac Addysg/ Rheolwr Derbyniadau Ysgolion/Rheolwr Uned Gludiant Integredig	Medi 2017

4. Â phwy mae'r gwasanaeth wedi ymgynghori ynglŷn â'r newid arfaethedig? Pryd y dylid cynnal yr ymgynghoriad newydd?
D.S: Mae'n hanfodol bod defnyddwyr gwasanaeth a phartïon eraill sydd â buddiant yn rhan o'r broses gynllunio cyn gynted â phosibl. Dylai cam cychwynnol ymgynghoriad ddilyn themâu cyffredinol. Mae'n briodol gofyn pa wasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi, sut y gellid newid gwasanaethau a/neu beth y gellid ei wneud yn wahanol. Yna dylai'r adborth hwn lywio eich cynigion achos busnes a'r asesiadau o'r effaith ar degwch a chydraddoldeb. Pan fydd cynigion penodol wedi cael eu llunio, bydd angen ymgynghori arnynt hwy hefyd. Bydd angen i'r holl randdeiliaid a'u safbwyntiau gael eu cynrychioli.

Nod y cynnig yw cynnal y lefelau presennol o gyfraniadau gan riant yn hytrach na gosod y cynnydd a nodwyd mewn adroddiad i Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc blaenorol ym mis Mehefin 2013. Felly, rhagwelir y bydd hyn yn cael ei ystyried a'i dderbyn yn gadarnhaol. Mae hyn yn ymwneud â gwasanaeth dewisol yn hytrach na swyddogaeth statudol. Nid oes angen cynnal ymgynghoriad.

5. Pa dystiolaeth/data sydd wedi cael eu defnyddio i gwblhau'r asesiad hwn o'r effaith ar degwch a chydraddoldeb (Bydd hyn yn cynnwys canllawiau lleol a chenedlaethol)

- Polisïau'r Cyngor ar gyfer Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol;
- Adborth gan swyddogion a chwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

6. Sut y bydd y grwpiau perthnasol yn cael eu hysbysu o'r newidiadau a'r asesiadau o'r effaith ar degwch a chyfrifoldeb?

Bydd y newid arfaethedig yn amodol ar adroddiad ffurfiol i Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc ac felly bydd yn mynd drwy broses ddemocrataidd gytûn y Cyngor.

Pan fydd y canlyniad wedi'i gadarnhau, hysbysir defnyddwyr gwasanaeth fel y bo'n briodol gan y Rheolwr Uned Gludiant Integredig.

7. Sut y bydd y polisi/arfer yn gwneud Casnewydd yn fwy neu'n llai teg mewn perthynas â'r canlynol:

- Anghydraddoldebau Iechyd
- Tlodi Plant
- Sgiliau a Gwaith
- Mynd i'r Afael â Thrais Domestig
- Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau
- Digartrefedd
- Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog

Bydd cynnal y lefel bresennol o gyfraniad gan riant, nid cynnydd arall, ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 yn lleihau posibilrwydd caledi ariannol ychwanegol ar deuluoedd unigol. Hynny yw, y gost fydd £370 y disgybl dros y flwyddyn academaidd.

8. Sut y bydd y gwasanaeth/polisi yn effeithio ar ardaloedd lleol o'r ddinas?

A fydd yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol o ran tegwch a mynd i'r afael ag amddifadedd ardal leol (bydd angen i chi ddefnyddio data gofodol sydd ar gael drwy Broffil Casnewydd a Phroffiliau Ward penodol i ateb y cwestiwn hwn)?

Ddim yn berthnasol – mae'r cynnig hwn ar gyfer y ddinas gyfan ac yn estyniad o'r trefniadau presennol.

9. Yn gryno, sut mae'r gwasanaeth/polisi diwygiedig yn hyrwyddo cysylltiadau da â'r gymuned (cydlyniant)?

Ddim yn berthnasol

10. Yn gryno, sut mae'r gwasanaeth/polisi diwygiedig yn hyrwyddo cydraddoldeb?

Sicrhaodd y dull codi tâl diwygiedig a weithredwyd o fis Medi 2014 fod yr holl fyfyrwyr ôl-16 ledled y ddinas yn cael eu trin yn gyfiawn wrth gyrchu addysg. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r cyfiawnder hwn, cynyddwyd y cyfraniad taladwy gan riant ynghylch

myfyrwyr sy'n defnyddio gwasanaethau cerbyd dan gontract o £45 y flwyddyn i oddeutu £347 y flwyddyn. Ystyriwyd y cynnydd hwn yn negyddol gan rieni a chafodd y Cyngor anawsterau a heriau sylweddol wrth ei weithredu. Fodd bynnag, mae'n allweddol nodi ei bod bellach yn ofynnol i'r holl fyfyrwyr ôl-16 dalu'r un cyfraniad, felly mae cyfiawnder ledled y ddinas.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, rhoddir cymhorthdal o hyd ar gyfer gwasanaethau dan gontract ac argymhellodd adroddiad 2013 ragor o gamau graddol i ddileu'r cymhorthdal hwn erbyn mis Medi 2017. Byddai hyn yn dechrau ym mis Medi 2015 pan ddylai cyfraniadau gan riant ynghylch gwasanaeth dan gontract gynyddu i £400 y flwyddyn.

Fodd bynnag, byddai hyn yn achosi rhagor o anghyfiawnder ledled y ddinas gyda myfyrwyr sy'n defnyddio'r rhwydwaith bysiau lleol yn parhau i dalu'r swm is.

Felly, mae'r cynnig hwn yn hyrwyddo cydraddoldeb drwy gynnal yr un lefel o gyfraniad ledled y ddinas, yn hytrach na chymhwyso cynnydd i rai myfyrwyr o fis Medi 2017.

11. Yn gryno, sut mae'r gwasanaeth/polisi diwygiedig yn dileu achosion o wahaniaethu?

Bydd yr holl blant sy'n gymwys i gael grant teithio bellach yn talu'r un lefel o gyfraniad gan riant tuag at gostau teithio ni waeth lle maent yn byw nac i ba ysgol maent yn mynd.

Cwblhawyd gan/Dyddiad: 13 Mehefin 2017

Cymeradwywyd gan/Dyddiad:  13 Mehefin 2017